**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

12 Medi 2016

Annwyl Aelod Cynulliad,

Rwy'n cysylltu i roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ynghylch gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Tata Steel a'i weithrediadau yng Nghymru, ers fy Natganiad olaf ar 8 Awst.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo yn llawn i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi y diwydiant Cynhyrchu Dur yng Nghymru. Ein prif bryder yw gweithlu Tata Steel, y cymunedau dur a'r angen i sicrhau dyfodol hirdymor a chynaliadwy i bob un o weithrediadau Tata Steel yng Nghymru, a'u gwerth sylweddol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, i economi Cymru.

Rydym yn parhau i ddatgan y byddwn yn barod i gefnogi unrhyw strwythur o ran perchnogaeth gweithgareddau Tata Steel yn y dyfodol sy'n cynnig y rhagolygon gorau o ran cadw swyddi a chynhyrchu dur yn gynaliadwy yng Nghymru.

Yn dilyn fy ymweliadau yn ddiweddar â safleoedd Tata Steel ym Mhort Talbot, Trostre, Llanwern a Shotton, mae datblygiadau sylweddol wedi'u gwneud o ran rheoli Tata Steel. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda rheolwyr Tata Steel ar bob lefel er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer gweithrediadau yng Nghymru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw sefydlu'r amodau cywir ar gyfer hyfywedd hirdymor y diwydiant cynhyrchu dur, ac yn benodol, sicrhau bod gweithfeydd yng Nghymru yn fwy cystadleuol a chynaliadwy wrth fynd ymlaen.

Mae pethau'n datblygu'n dda o ran sawl prosiect fydd yn caniatáu i'r gweithfeydd yng Nghymru ddod yn fwy effeithiol a'u bod yn gallu gwerthsefyll y gystadleuaeth fyd-eang, gan gynnwys datblygu prosiect mawr i wella'r amgylchedd ym Mhort Talbot, buddsoddiad posibl yn y gallu ar gyfer cynnyrch premiwm cynaliadwy yn Shotton a phecyn cymorth hyfforddi posibl ar gyfer gweithwyr ar draws safleoedd Tata Steel yng Nghymru. Rydym hefyd yn edrych ar gynnydd sylweddol mewn buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar gyfer cynnyrch newydd ym Mhort Talbot. Byddai hyn, pe byddai'n cael ei sicrhau, yn dangos bod hyder sylweddol yn nyfodol y diwydiant cynhyrchu dur yng Nghymru, a fyddai'n rhoi hwb yn lleol i'r arloesi blaenllaw sydd mor bwysig er llwyddiant y diwydiant dur.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r trafodaethau gyda Tata Steel, er eu bod yn datblygu'n dda, yn parhau, ac felly ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd o'u llwyddiant. Fel rhan o'r trafodaethau hyn, ac fel yr hyn sy'n arferol ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi, rydym hefyd yn cynnwys yr amodau fydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n credu bod y datblygiadau hyn yn gamau gwirioneddol ymlaen, a'u bod yn cefnogi ein safbwynt cadarn bod gan gynhyrchu dur ddyfodol cynaliadwy, hirdymor yng Nghymru. Fodd bynnag, ni all yr un ohonom laesu dwylo. Mae nifer o'r elfennau amlwg sydd wedi creu'r amodau anodd ar gyfer cynhyrchwyr dur yng Nghymru a thu hwnt, megis gor-gynhyrchu a chael gwared ar fewnforion sydd wedi'u masnachu'n annheg, yn parhau i ddigwydd.

Mae bellach yn bwysicach nag erioed i Lywodraeth Prydain gymeryd camau cadarn er mwyn sicrhau tegwch o ran costau ynni yn ogystal â dod o hyd i ffordd deg ymlaen ar gyfer Cynllun Pensiwn Dur Prydain, y ddau beth yn ganolog i sicrhau'r rhagolygon gorau o ddyfodol cynaliadwy, hirdymor.

Byddaf yn parhau i roi'r newyddion diweddarf i'r Aelodau wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure